



Mawrth 2014

Gwiriwch ein gwefan am ein hadroddiadau diweddaraf a phob un o'r cyhoeddiadau a chyflwyniadau rydym wedi eu cwblhau hyd yma.

Yr adroddiad diweddaraf ar y wefan yw:

- Arolwg o'r Gragen Fylchog yn nyfroedd Cymru – Bae Ceredigion i Fae Lerpwl Gorffennaf – Awst 2013 (Welsh waters scallop survey)

Ewch i: <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk> a dewis 'Pysgodfeydd Cymru' ('Welsh Fisheries') – 'Adroddiadau'. Neu cysylltwch â'r adroddiadau diweddaraf drwy ein tudalen gartref (de uchaf).

Mae'r wefan yn cynnwys lluniau a fideos o'n gwaith. Ymunwch â'n tudalen Facebook am ragor o wybodaeth: <https://www.facebook.com/fisheriesconservation>. Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: @Fisheriesbangor.



Cregyn Bylchog

Y prawf dwyster pysgota

Mae'r arolygon cyn y prawf dwyster pysgota wedi ei ddechrau. Mae'r Cwch Ymchwil, y Tywysog Madog, ar hyn o bryd ym Mae Ceredigion yn cynnal asesiad cynefin cyn dechrau'r profion pysgota. Mae gennym 5 cwch yn cymryd rhan yn yr astudiaeth, yn cynorthwyo yn yr ymchwiliad arbrofol i benderfynu ar effeithiau gwahanol lefelau o bysgota dwys ar gregyn bylchog ar organebau sydd ar wely'r môr a chynefin Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion (ACA). Diolch i bawb sydd wedi dangos diddordeb.

Yn y pen draw rydym yn ceisio cynghori Llywodraeth Cymru a'r diwydiant pysgota am lefel cynaliadwy posibl pysgota cregyn bylchog y gellir efallai ei ganiatáu yn yr ardal hon.

Dechreuwyd yr arbrawf a mae'n digwydd mewn ardaloedd sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw ym Mae Ceredigion. Mae maint y ddalfa a ymgymerir ar bob cwch yn cael ei gyfarwyddo gan y Grŵp Pysgodfeydd a Chadwraeth. Bu'r pysgota arbrofol yn digwydd ers 1af Ebrill a mae i fod i barhau tan y 30 Ebrill 2014. Lleoliad arfaethedig yr arbrawf yw pysgodfeydd cregyn bylchog a fu ar gau i bysgota ers tua pum mlynedd.



Y Tywysog Madog, y cwch ymchwil, yn gadael Afon Menai am Fae Ceredigion i ddechrau'r prawf dwyster pysgota

Holiadur Pysgotwyr

Mae holiadur gwybodaeth pysgotwyr yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda physgotwyr ledled Cymru a bydd yn parhau tan y gwanwyn a'r haf. Hyd yn hyn cwblhawyd 59 holiadur; 28 yng Ngogledd Cymru, 10 yng Nghanolbarth Cymru a 21 yn Ne Cymru. Rydym yn gobeithio cael y rhan fwyaf o'r holiaduron wedi'u cwblhau erbyn diwedd haf 2014 a gallu symud i gyfnod dadansoddi. Rydym yn gobeithio trefnu cyfweiliadau gyda physgotwyr, felly os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Julia (j.pantin@bangor.ac.uk).

Gallwch hefyd gofrestru ar ein gwefan (cliciwch ar y ddolen 'Cymryd Rhan' ('Get Involved') ar <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk>)

Mae'r holiadur hwn o'r pwysigrwydd pennaf gan y bydd yn canfod ardaloedd o'r arfordir sydd fwyaf pwysig i bysgotwyr, yn darparu portffolio o dystiolaeth annibynnol i'r diwydiant pysgota i'w ddefnyddio wrth fynd rhagddo, a llywio ein dealltwriaeth o fioleg y rhywogaethau masnachol pwysicaf yng Nghymru.

Mapio cynefin gyda'r Rheng sy'n hedfan



Y rheng sy'n hedfan (chwith) a'r sled camera (de) a ddefnyddir ar gyfer arolwg cynefinoedd

Cyn bo hir byddwn yn edrych ar ddadansoddiad cost a budd gan defnyddio gwahanol ddulliau samplu ar gyfer cynefin dyfnforol nodi mathau-bio. Mewn geiriau eraill: os ydych eisiau gwybod pa fath o gynefin sydd ar waelod y môr, gallwn ganfod pa ddull fyddai orau ar gyfer gwaith a chyllid penodol (plymwyr, fideo y rheng sy'n hedfan neu sled fideo). Byddwn yn casglu data ar y mathau

dyfnforol o gynefin a chymhlethdod ac amrywiaeth rhywogaethau. Bydd deifwyr sy'n archwilio'r môr yn casglu gwybodaeth sy'n seiliedig ar yr hyn a gesglir gan y deifio a bydd pysgotwyr lleol yn gweithio gyda'n ymchwilyr i leoli offer fideo. Bydd y dulliau hyn yn cael eu hasesu, eu cymharu a'u gwrthgyferbynnu i dynnu sylw at gryfderau a'r defnydd mwyaf addas pob dull.



Cramenogion

Astudiaeth Drws Dianc Cimychiaid

Bydd gwaith maes ar astudiaeth drws dianc cimychiaid ym Mae Ceredigion yn parhau yr haf hwn pan fydd y gêr wedi'i adnewyddu a'r cimychiaid yn fywiog. Bydd y gwaith yn ymchwilio i faint o gimychiaid (digonedd) a geir eu dal a strwythur maint mewn cewyll sydd â drysau dianc bach, rhai mawr neu rai heb ddrysau, yn ogystal â drwy gyfansoddiad y ddalfa a gwahaniaethau mewn amseroedd sortio.

I ategu'r gwaith maes hwn, mae system camera yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd a fydd yn caniatáu ffilmio y tu mewn i gawell cimwch. Rydym yn trefnu'r system camera hon ar gyfer Mai ac Awst 2014. Rydym yn gobeithio mynd i'r afael â'r cwestiynau dilynol:

1. Ydi rhywogaethau targed sy'n rhy fach a rhywogaeth sy'n cael eu dal yn sgil y lleill yn defnyddio'r bylchau dianc?
2. Pa ganrannau o unigolion sy'n mynd i fewn i'r cewyll sydd wir yn cael eu dal?
3. Ydi canibaliaeth yn digwydd ar rywogaethau targed sy'n rhy fach yn y cewyll sydd heb fylchau dianc?

Atgenhedlu Cimychiaid

Mae'r gwaith a wnaed yr haf diwethaf ar faint cimychiaid pan fyddant yn aeddfed wedi darparu peth data man cychwyn a phrotocol ar gyfer casglu data. Fodd bynnag, mae'r samplau maint ar hyn o bryd yn rhy fach ar gyfer dadansoddiad manwl gywir ac felly byddwn yn ychwanegu i'r data yn ystod y gwanwyn/haf hwn. Rydym yn chwilio am bysgotwyr o Gymru gyfan i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Bydd angen i chi gymryd ymchwilydd i'r môr tua phedair gwaith i fesur maint y cimychiaid, y nifer sydd ag wyau ac, ar gyfer unrhyw fenyw sydd heb wyau, bydd coes nofio fach (pleopod) yn cael ei samplo i ganiatáu gweld lefel datblygu chwarennau sment yn y labordy. Gwelir chwarennau sment yn y coesau nofio bach ac maent yn chwyddo pan mae'r fenyw yn barod i allwthio wyau. Defnyddir y sment i lynu'r wyau at yr abdomen.

Yn ychwanegol, byddwn yn samplo'r mas wyau cyfan o 50 o gimychiaid o bedwar safle gwahanol o amgylch Cymru (200 o gimychiaid i gyd). Mesurir hyd argragen y cimwch, bydd nifer yr wyau'n cael eu cyfrif, bydd maint cyfartalog yr wyau'n cael eu mesur ac archwilir ansawdd yr wyau. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb yn yr astudiaeth hon gysylltu â: n.hold@bangor.ac.uk; 07903762466

Cranc coch



Cranc coch ifanc, *Cancer pagurus*

Mae'r ymchwil i'r Maint pan maent yn Aeddfed ar stop ar hyn o bryd tan fis Tachwedd/Rhagfyr 2014 er mwyn i ni allu asesu'r poblogaethau tra maent yn bridio. I benderfynu os oes gwahaniaethau rhanbarthol mewn maint pan maent yn aeddfed, byddwn yn asesu cyflwr atgenhedlu'r gwrywod a'r benywod o Gymru, yr Alban, Lloegr, Iwerddon ac Ynys Manaw. Ar hyn o bryd mae gennym gynrychiolwyr o'r gwledydd hyn sy'n awyddus i gyfrannu i'r astudiaeth graddfa eang iawn hon, ac felly rydym yn edrych ymlaen at ddechrau.

Ar gyfer crancod coch sy'n oedolion, rydym yn edrych ar batrymau mewn cymhareb rhyw a strwythur maint y daliadau. I wneud hyn rydym yn samplo cimychiaid a chrancod gan brosesyddion o amgylch Cymru. Am mai wrth eu pwysau yn unig mae daliadau'n cael eu mesur, mae o gymorth i ddeall pa feintiau, rhyw a champau wrth fwrw cramen sy'n cael eu dal drwy gydol y flwyddyn. Rydym hefyd yn samplo ar y bwrdd gyda system camera ar y bwrdd, a'r dull mwy traddodiadol o arsyllwyr ar y bwrdd.

Crancod, corgimychiaid a'r gragen foch fwyaf

Rydym yn agos at gwblhau ein dadansoddiad labordy ar gyfer crancod sy'n oedolion a'r gragen foch fwyaf, ac rydym wedi dechrau ar y samplau o'r gorgimychiaid. Yn y llun hwn mae'r lab yn brysur gyda Gemma Rayner (chwith) yn edrych ar ffrwythlondeb yn y cranc coch, Jen Fox a Matthew King (canol) yn prosesu samplau o'r gragen foch fwyaf a Kayla Williams a Niamh Ryan (dde) yn prosesu samplau o'r gorgimychiaid o Fae Ceredigion.



Labordy brysur – (Chwith i'r dde) Gemma Rayner, Jen Fox, Matthew King, Kayla Williams a Niamh Ryan

Y Gragen Foch Fwyaf

Rydym newydd gwblhau ein hastudiaeth cadw tagiau gan dreialu dulliau tagio gwahanol. Nawr rydym yn paratoi ar gyfer yr haf pan fydd dau fyfyrwr gradd meistr newydd, Georgia Robson a Zara Turtle, yn ymuno â'n tîm i asesu faint (digonedd) sydd yna yn lleol o'r gragen foch fwyaf gan ddefnyddio dulliau marcio y rhai sy'n cael eu hail ddal. Byddant yn asesu digonedd yn lleol o gregyn moch mwyaf a strwythur poblogaethau yn Abertawe a Gogledd Cymru.




Pysgod adeiniog

Draenogiaid môr

Samplwyd dros 1300 o bysgod hyd yn hyn. Rydym wedi dechrau dadansoddi'r cen i wybod oed y pysgod ac ar gyfer dadansoddiad isotop sefydlog. Mae cyfanswm o 600 o bysgod wedi cael eu nodi am eu hoed a chromlin twf, ac amcangyfrifwyd paramedrau biolegol eraill. Mae toriadau o bob cen, o bysgod sydd wedi'u dal mewn 8 ardal benodol o amgylch Cymru hefyd wedi'u paratoi ar gyfer dadansoddiad isotop sefydlog ac wedi eu hanfon i'w dadansoddi. Dylai'r canlyniadau cyntaf fod ar gael erbyn mis Mehefin. Bydd y dadansoddiad hwn yn rhoi mewnwelediad i ni ar ffyddlondeb draenogiaid môr i'w lleoliadau a phatrymau mudo posibl.

Rydym yn parhau yn gyson i gasglu samplau o ddraenogiaid môr aeddfed a rhai sy'n silio gan bysgotwyr a'r diwydiannau prosesu. Bydd y data yn caniatáu penderfynu beth yw'r maint pan maent yn aeddfed. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cydweithio â ni hyd yn hyn. **Cysylltwch â Giulia Cambiè** (g.cambie@bangor.ac.uk) os gallwch ddarparu samplau o ddraenogiaid môr (cen a gonadau).



Cen draenog y môr a gofnodwyd gan Tom Overy, un o'n myfyrwyr.

